# COFNODION CYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Gorffennaf 19eg, 2017 am saith o'r gloch

**PRESENNOL**

Alun Jones (Cadeirydd), Gwilym Hughes (Is-gadeirydd), Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Dylan Llwyd, Erfyl W. Roberts, O. Hefin Roberts, Andrew T. Weir, William B. Williams, Cynghorwyr Dewi W. Roberts a John B. Hughes (Cyngor Gwynedd)

**YMDDIHEURIADAU**

Catherine Ll. Morris

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig Edward O. Griffith i'w gyfarfod cyntaf fel aelod dros Ward Llangian, a William B. Williams yn ôl fel aelod dros Ward Aber-soch.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd gan neb fuddiant personol i'w ddatgan.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fehefin 14eg, 2017 yn gywir ar ôl cywiro y datganodd y Cynghorwyr Alun Jones, John Gwilym Jones a Dylan Llwyd ddiddordeb yng ngheisiadau cynllunio C17/0412/39/LL – Llain Las, Aber-soch**;** C17/0444/39/LL – Tŷ Hir Caravan Park, Mynytho**,** a C17/0448/39/LL – Fron Hyfryd, Sarn Bach, oherwydd eu bod yn berchnogion meysydd carafannau eu hunain; a'r Cynghorydd Owi Lloyd-Jones yng nghais cynllunio C17/0443/39/YM – Pen y Cei, Lôn Pen Cei, Aber-soch, oherwydd mai ef yw Harbwrfeistr Aber-soch a pherchennog sied ddingi yn yr Harbwr.

3. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

| | |
|---|---|
| C17/0536/39/LL | Diwygio Amod 2 (Manylion rhif 4003 SK 10 Rev A – Arbtech AIA 01) ar Ganiatâd Cynllunio C16/1673/39/LL er adeiladu'r datblygiad yn unol â dyluniad diwygiedig – Fras, Mynytho **– Cefnogir** |
| C17/0553/39/LL | Dymchwel modurdy presennol ac adeiladu un newydd – Neigwl, Lôn Sarn Bach, Aber-soch **– Cefnogir** |

| | |
|---|---|
| C17/0577/39/LL | Diwygiad i ddyluniad yr eiddo er ychwanegu dwy ffenestr ychwanegol ar flaen yr eiddo – 1 Hafan yr Harbwr, Aber-soch **– Cefnogir** |
| C17/0578/39/LL | Estyniad i'r blaen a newid siâp teras blaen a ganiatawyd yng nghais C17/0175/39/LL – 8 Maes Awel, Aber-soch **– Cefnogir** |
| C17/0579/39/LL | Adeiladu porth newydd i'r cefn **–** Tŷ Capel Bethlehem, Cilan **– Cefnogir** |
| C17/0588/39/LL | Tynnu mynedfa gerdded bresennol a chreu lle parcio a wal gynnal newydd – Isfryn, Llanengan **– Cefnogir** |
| C17/0595/39/TC | **Gwybodaeth Bersonol Cynghorwyr –** Cais am dystysgrif defnydd sefydlog presennol o dir fel safle storio carafannau – Tir ger Fferm Cim, Bwlchtocyn |
| C17/0628/39/LL | Dymchwel tŷ presennol a chodi un newydd yn ei le **–** Ynysfor Bach, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd ei fod yn orddatblygiad ar safle cyfyng ar briffordd hynod brysur a chul** |
| C17/0658/39/LL | Estyniad unllawr i'r cefn – Maesteg, Aber-soch **– Cefnogir** |

4. **MATERION YN CODI**

a) **3. Ceisiadau Cynllunio**

i) ***C17/0159/39/LL – The Shanty, Pen Bennar, Aber-soch***
Gohiriwyd unrhyw benderfyniad ar yr uchod tan fis Medi er mwyn i'r Pwyllgor Cynllunio ymweld â'r safle.

ii) ***C17/0445/39/LL – Tir ger 2 Cae'r Eglwys, Llanengan***
Derbyniwyd e-bost oddi wrth yr ymgeisydd yn gofyn am sylwadau'r Cyngor ar y cais – anfonwyd copi o'r cofnodion ato.

b) **Toiledau Cyhoeddus**

i) ***Lôn Traeth***
Derbyniwyd neges, yn dilyn cysylltu â chyfreithiwr y Cyngor eto i ofyn am ei sylw ar y drysau – nid yw'n ymgymryd â'r math yma o waith a throsglwyddodd yr ohebiaeth i gydweithiwr iddo, Kelly Hynes; ni dderbyniwyd ymateb oddi wrth hithau 'chwaith.

ii) ***Priffyrdd a Bwrdeistrefol – Toiled/au Cyhoeddus yn eich Cymuned***
Derbyniwyd llythyr yn cadarnhau y parhâ'r cynllun ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf ac yr arhosa'r cyfraniadau yr un faint ag eleni – deng mil o bunnoedd i'r Cyngor hwn. Cynhelir trafodaethau dechreuol â'r cymunedau hynny a ddatganodd ddiddordeb cymryd mwy o gyfrifoldeb am y ddarpariaeth a'u cynnal i'r dyfodol – gosod peiriannau talu oedd ein cais ni.

c) **Cae Chwarae Aber-soch**

i) ***Cae Pêl-droed***
Derbyniwyd e-bost oddi wrth Wyn Williams yn hysbysu yr ymwelodd y cwmni astroturf â'r safle â Clive Moore, Pwllheli. Mae angen cadarnhad ond, dealla fod y costau yn uchel iawn, iawn i'w gwblhau'n

unol â gofynion iechyd a diogelwch; mwy o wybodaeth erbyn cyfarfod mis Medi.

ii) ***Archwiliad Iechyd a Diogelwch***
Derbyniwyd y darnau ac anfoneb (gweler 13. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod). Penderfynwyd gofyn i (Sean/Alwyn Jones/Melfyn Pritchard) am baentio ar ôl gwaredu'r rhwd ar yr offer sglefrfyrddio, siglenni ac offer y plant lleiaf.

iii) ***Amcanbrisiau Offer Newydd***
Ni dderbyniwyd gwybodaeth am leoliad lleol oddi wrth G.L. Jones Ltd. er cysylltu ddwywaith. Derbyniwyd catalog gan gwmni o Ffynnongroew – prisiau tebyg.

ch) **Clorian Cymru – Teledu Cylch Cyfyng**
Ni dderbyniwyd gwybodaeth os cyfranna'r Heddlu at y camera newydd ai peidio. Arwyddion – Ian Roberts yn disgwyl pris am un plastig caled neu fetel.

d) **Meddygfa Aber-soch**
Derbyniwyd amryw ohebiaethau parthed yr uchod. Penderfynwyd y trefna'r Cyngor ddeiseb yn gwrthwynebu cau'r feddygfa a'i ddosbarthu i siopau a busnesau'r gymuned, gan ei fod yn effeithio ar gymaint o drigolion.

**Gadawodd Cyng. John B. Hughes y cyfarfod ar ôl trafod y materion uchod.**

dd) **Gohebiaeth: 9i) Nimbus Lightning Protection Ltd. – Corn Tanrallt**
Derbyniwyd e-bost oddi wrth yr uchod yn ymddiheuro am y gwasanaeth a dderbyniwyd – anfonwyd llythyr cwyno am y diffyg ymateb i'r ceisiadau am brofi'r uchod. Dychwela'r swyddog a gysylltodd â'r Clerc o'i wyliau ddydd Llun a sicrheir yr ymateba'n syth.

e) **Gohebiaeth**: **11ch) Swyddog Trwyddedu – Cais Amrywio Trwydded Eiddo – Y Vaynol, Aber-soch**
Derbyniwyd ymddiheuriad nad atebwyd y cwestiwn os bodola'r un oriau i dafarndai eraill Aber-soch pan drafodwyd yr uchod. Atodwyd rhestr ohonynt – amrywiant o eiddo i eiddo yn wahanol i'r hen ddeddf lle roedd oriau agor pob eiddo yn gyson; ni chynhwyswyd Y Vaynol arni.

f) **5. Coed yr Allt, Aber-soch**
Mynychodd y Clerc wrandawiad yr achos yn Llys Caernarfon echdoe (Gorffennaf 17eg) – adroddwyd arno yn y *Daily Post* ddoe. Plediodd y diffynnydd yn euog ond, ar yr un pryd, credai na wnaeth ddim o'i le! Dyfarnwyd deuddeg mis o ryddhad amodol iddo a thalu iawndâl o £905.00 i'r Cyngor, ynghyd â £110.00 o gostau'r llys. Yn anffodus, ni all dalu'r iawndâl ar unwaith a chaniatawyd iddo wneud fesul dau gan punt y mis. Derbyniwyd llythyr trefn yr iawndal oddi wrth y Gwasanaeth Llysoedd – angen llenwi ffurflen BACS ar gyfer y taliadau. Hysbyswyd Adam Wilde, a daclusodd y coed, a Paolo Bavaresco, arbenigwr, o'r dyfarniad a methent â chredu'r hyn a

glywsont – cymaint felly, yr ysgrifennodd Adam Iythyr i'r *Daily Post* i fynegi ei syndod.

ff) **6. Etholiadau – Cynghorau Cymuned a Thref**
Derbyniwyd ymddiheuriad oddi wrth Siôn Huws, Uwch Gyfreithiwr Corfforaethol, nad atebwyd y llythyrau a fynegai anfodlonrwydd â'r problemau a gafwyd o gyflwyno ffurflenni enwebu yn Swyddfa'r Cyngor ym Mhwllheli. Cred mai prysurdeb etholiadau lleol a chyffredinol oedd y rheswm ond, nad oedd hynny'n cyfiawnhau'r diffyg. Eglura y gwirir papurau ymgeiswyr yn unigol cyn y gellir eu derbyn yn ffurfiol fel rhai dilys. Trefnwyd apwyntiadau i ymgeiswyr y cyngor sir wirio eu ffurflenni ond, ni fodola'r drefn honno i rai'r cynghorau cymuned a thref. Prosesid y papurau enwebu gan staff yn swyddfeydd Caernarfon a Dolgellau ond, dim ond eu derbyn a wneid ym Mhwllheli cyn eu hanfon i Gaernarfon. Diwedda drwy ddweud yr adolygir y trefniadau yn dilyn pob etholiad ac ystyrir anfodlonrwydd y Cyngor hwn yn rhan o'r broses honno.

g) **11. Gohebiaeth: a) Un Llais Cymru (ULlC) ii)** ***Digwyddiad ar y Cyd rhwng ULlC a Chymdeithas y Clercod (SLCC)***
Derbyniwyd copi o'r cyflwyniadau ar y diwrnod – *Finance and Accountability* gan Deryck Evans, Swyddfa Archwilydd Cyffredinol Cymru, a *Managing Behaviour Through Good Governance*, Lis Moore (SLCC).

ng) **11. Gohebiaeth: c) Gwasanaeth Trafnidiaeth a Chefn Gwlad – Cyd-bwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn**
Hysbyswyd yr Adran AHNE na ddymunai neb gynrychioli'r Cyngor ar y Cyd-bwyllgor a derbyniwyd ateb yn mynegi siomedigaeth.

h) **11. Gohebiaeth: ch) Gwasanaeth Cyfreithiol – Y Pwyllgor Safonau – Aelod Pwyllgor Cymunedol**
Hysbyswyd nad oedd neb â diddordeb bod yn Aelod o'r Pwyllgor Cymunedol – penodwyd rhywun erbyn hyn ond, mae angen dau aelod o Gyngor Gwynedd i wasanaethu arno.

i) **11. Gohebiaeth: f) Wyn Williams/Arwel Ellis Jones – Adolygiad o Ffiniaeth Etholaethol Gwynedd/Pen Llŷn**
Hysbyswyd y cafwyd sgwrs â'r Aelod Lleol ac ymddiheuriwyd na chafwyd cyfle i edrych ar ymatebion y Cyngor hwn a anfonwyd at y Comisiwn Ffiniau; roedd hynny'n rhy hwyr beth bynnag, gan y cyflwynwyd y sylwadau eisoes.

5. **AELODAETH IS-BWYLLGORAU 2017 – 2018**

Gan mai heno y cynhelir cyfarfod o'r Cyngor ag aelodaeth llawn cyntaf ar ôl yr Etholiadau Lleol a'r Cyfarfod Blynyddol, enwebwyd y Cynghorwyr a ganlyn yn aelodau o'r Is-bwyllgorau:

- ***Ariannol*** – Cadeirydd, Is-gadeirydd, Edward O. Griffith, John Gwilym Jones, Robert Morris Jones a'r Clerc
- ***Caeau Chwarae*** – Cadeirydd, Is-gadeirydd, Wyn Griffith, Dylan Llwyd, Erfyl W. Roberts a'r Clerc
- ***Cynllunio*** – Cadeirydd, Is-gadeirydd, aelod o bob Ward (tri) a'r Clerc
- ***Llwybrau*** – Cadeirydd, Is-gadeirydd, Wyn Griffith, Robert M. Jones, Andrew T. Weir a'r Clerc
- ***Mynwent*** – Cadeirydd, Is-gadeirydd, Gwilym Hughes, Erfyl W. Roberts, William B. Williams a'r Clerc.

6. **MYNWENT**

a) **Mainc Er Cof**

Holwyd y Cyn-gadeirydd a fyddai modd gosod mainc er cof am un a gladdwyd yn y fynwent yn ddiweddar; mae un ger y brif fynedfa yn yr hen fynwent. Dywedwyd y trafodai'r Cyngor y cais yn dilyn ei dderbyn mewn llythyr. Ni dderbyniwyd un ond, nid oedd gwrthwynebiad a dylid pwysleisio na fuasai'r Cyngor yn gyfrifol amdani pe gosodid un.

b) **Rheolau'r Fynwent**

Ymatebodd yr ymgymerwr i'r llythyr a anfonwyd ato yn ei hysbysu na chanaiteid iddo gladdu yn y fynwent eto am na chydymffurfiodd â Rheolau'r Fynwent o ddefnyddio torrwr beddi swyddogol y Cyngor. Mynnai na soniwyd am hynny wrtho pan ofynnodd am ganiatâd claddu – gwnaed. Cynhaliwyd cyfarfod brys o'r Is-bwyllgor i drafod ei gais am ganiatâd claddu eto a phenderfynwyd bod rhaid iddo gadw at y Rheolau a chysylltu â'r torrwr beddau swyddogol, sef G.D. Roberts a'i Fab, Pwllheli – fe'i hysbyswyd o hynny. Diwygiwyd cymal o'r Rheolau eto ac anfonir copi at holl ymgymerwyr a beddfeinwyr yr ardal – derbyniwyd ac ategwyd y penderfyniad gan y Cyngor llawn heno.

c) **Ffensio**

Cysylltir â deiliad y cae i ofyn a fyddai ganddo ddiddordeb rhentu'r tir i'w bori pe ffensid ochr dde ac isaf y fynwent.

7. **CYFRIFON – ARCHWILIAD 2016 – 2017**

- Anfonwyd y ddogfennaeth at BDO, yr Archwilwyr Allanol; llun-gopïwyd dros hanner cant o ddalennau ac ardystiodd y Cadeirydd a'r Clerc bob hyn ohonynt fel copïau dilys.
- Dosbarthwyd copi o'r llif arian cyfredol (gweler atodiad) ac aethpwyd trwyddo – fe'i derbyniwyd ar ôl i'r Clerc ddweud y cynhwyswyd dau daliad am gladdu ac ailagor bedd ym mis Gorffennaf er na dderbyniwyd y taliadau hyd yma. Hefyd, rhaid iddi wirio beth yw'r £200.00 yn incwm Amrywiol/Llogau ym mis Gorffennaf (camgymeriad) a £280.00 yn gostau dan Tir y Cyngor ym mis Mai a £240.00 ym mis Mehefin – ailenwyd colofn 'Tir y Cyngor' ar y daflen gwariant i 'Tir/Caeau/Coed' a symudwyd y £280.00 i 'Caeau Chwarae' a thynnwyd yr olaf o

'Dir y Cyngor' oherwydd fe'i cynhwyswyd fel £90.00 yn 'Caeau Chwarae' a £150.00 yn 'Coed yr Allt'; dechreua ddeall sut y gweithia a derbynia gyngor achlysurol gan mai ffrind a'i greodd (templed Merched y Wawr).

8. **MATERION CYNLLUNIO**

Derbyniwyd gohebiaeth bellach oddi wrth Aneurin Môn Parri, Uwch Swyddog Gorfodaeth, am yr isod:

a) **Mynedfa Newydd Castell, Lôn Pont Morgan, Aber-soch**
cysylltodd perchennog yr uchod ar Orffennaf 11eg i'w hysbysu y bwriadai gau'r fynedfa gerbydol o fewn wythnos – fe'i cauwyd

b) **Gorfodaeth – 67 Cae Du, Aber-soch (Cwyn Rhif G17/0065)**
derbyniwyd llythyr oddi wrth berchennog yr uchod yn disgrifio'r gwaith adnewyddu a wnaeth. O ganlyniad, cadarnhaodd na wnaed datblygiad sydd angen caniatâd cynllunio ac ni ddigwyddodd tor-rheolaeth cynllunio a chaeir y ffeil gorfodaeth.

c) **Adroddiad Arolygydd Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLL) Gwynedd a Môn**
Llythyr yn hysbysu y derbyniodd Cynghorau Gwynedd a Môn gopi o Adroddiad yr Arolygwyr ar yr Archwiliad ar Fehefin 30ain ac y daethant i'r casgliad, yn amodol ar y newidiadau a nodir yn Atodiad A a B fod y CDLl yn gadarn – daw cyhoeddi'r Adroddiad â'r broses Archwiliad i ben. Rhaid i'r ddau Gyngor ymgynghori'r newidiadau a bennir a'u mabwysiadu o fewn wyth wythnos o dderbyn yr Adroddiad.

9. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Materion Cynnal a Chadw yn y Gymuned – Tyfiant rhwng Bodlondeb ac Eryri, Lôn Sarn Bach**
Fe'i torrwyd cyn cysylltu â'r Gwasanaeth.

b) **Ymgynghoriad Cyhoeddus Teithio Llesol**
Ymgynghoriad ar ddarpariaeth Mapiau Rhwydwaith Integredig ar gyfer cerddwyr a beicwyr yng Ngwynedd. Pwllheli yw'r man agosaf dan sylw i'r gymuned hon – anfonir yr un sylwadau ac a wnaethpwyd ym mis Awst y llynedd er yr ymatebwyd bryd hynny na chyrhaedda'r gymuned ofynion y Ddeddf (poblogaeth o dros 2,000).

c) **Rhaglen Waith mis Gorffennaf**
Arwisgir y ffyrdd a ganlyn: Sarn Bach – Cilan; Sarn Bach – Cim – Bwlchtocyn; Pant Gwyn – Sarn Bach; Lôn Nant y Big, Cilan (cysylltir i hysbysu'r Gwasanaeth mai Lôn Groes yw ei henw cywir); Lôn Tyddyn Llan, Llangian; Fron Heulog, Cilan a Lôn Pendraw, Sarn Bach (cysylltir i holi pa un yw hi, gan nad oes un o'r enw yna yn gymuned – amau mai Lôn Haearn yw hi).

ch) **Biniau**

Anfonwyd cwyn am y lanast oedd o amgylch y bin baw cŵn ger Toiledau Lôn Traeth, gan ei fod yn orlawn ac roedd ysbwriel oddi tano hefyd; fe'u gwagiwyd a'u cliriwyd gyda'r troad. Derbyniwyd copi o ohebiaeth, er gwybodaeth, rhwng Steffan Jones a'r Cyng. Dewi Wyn Roberts parthed biniau'n gyffredinol.

Ni dderbyniwyd ateb oddi wrth Steffan Jones parthed gosod bin baw cŵn ger Maes Parcio Machroes neu Lôn Haearn.

10. **MATERION HAWLIAU TRAMWY – LLWYBRAU CYHOEDDUS**

a) ***Ffens ger Isfryn, Mynytho***

Gosodwyd y ffens a derbyniwyd anfoneb – gweler 13. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

b) ***Torri'r Llwybrau 2017***

Penderfynwyd, oherwydd bod ychydig o'r 'dall yn arwain y dall' o ran torri'r llwybrau eleni, y dylid cynnal cyfarfod rhwng pawb – Is-bwyllgor Llwybrau a'r contractwyr, ynghyd â Dewi Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy; cysylltwyd ag o eisoes a gall gynnig Awst 15fed.

11. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Dyddiadur Cyfarfodydd y Pwyllgor Ardal***

Derbyniwyd dyddiadau y cyfarfodydd am y flwyddyn nesaf – nos Fawrth, Medi 12fed; nos Fercher, Rhagfyr 13eg; nos Iau, Mawrth 15fed a nos Fawrth, Mehefin 12fed.

ii) ***Cynhadledd a Chyfarfod Cyffredinol Blynyddol***

Nodyn atgoffa am yr uchod a gynhelir ddydd Sadwrn, Medi 30ain yng Nghae'r Sioe, Llanelwedd.

iii) ***Bwletin mis Mehefin***

Nid oedd dim o bwys i'w argraffu o'r bwletin hwn.

iv) ***Hyfforddiant mis Gorffennaf***

Rhestr o'r uchod, er gwybodaeth. Dosberthir copi o'r holl gyrsiau a gynhelir gan ULlC i bawb.

b) **Hunaniaith** – **Cynllun Cyfieithu Cymunedol**

Cynllun peilot i ymestyn ffiniau defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned ar gyfer cynghorau cymuned cymuned a thref i alluogi cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd.

c) **Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn – Gweithdai Llesiant Llesol**

Gwahoddiad i'r gweithdai a gynhelir ym mis Awst – y Clerc am geisio mynychu.

ch) **ScottishPower/Glendale Services – Torri Coed gyferbyn â Chae Chwarae Mynytho**
Cais i dorri'r uchod sydd gerllaw llinellau trydan – dim gwrthwynebiad.

d) **Came and Cable – Yswiriant**
Llythyr yn gofyn os caiff gynnig pris am yswiriant y flwyddyn nesaf, gan y gall gynnig amcanbris gan dri darparwr sy'n arbenigo â pholisïau cynghorau cymuned a thref – penderfynwyd cyflwyno'r wybodaeth angenrheidiol, ac i AON ar ôl derbyn gohebiaeth oddi wrtho'n ddiweddar, gan y bydd angen adnewyddu'r yswiriant ym mis Medi.

12. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO AC YMHOLIADAU CYN CYFLWYNO CAIS**

| | |
|---|---|
| C17/0391/39/LL | Estyniad talecen unllawr – Bodnant, Bwlchtocyn – **Caniatawyd ag amodau** |
| C17/0318/39/LL | Adeiladu tŷ ar wahân a gwaith cysylltiol – Tir ger Deudraeth, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau** |
| C17/0393/39/LL | Gwelliannau i do llechi presennol a chodi to llechi newydd yn lle un fflat presennol – Neigwl, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau** |
| C17/0443/39/LL | Estyniad ac addasiadau i gynnwys ffenestr gromen ar edrychiad gogleddol, dwy ffenestr gromen ar edrychiad deheuol, estyniad deulawr dwyrain, estyniad unllawr i'r gorllewin â tho byw, estyniad i lefel is-lawr, teras bychan i'r gorllewin, sied dingi yn yr ardd a newidiadau mewnol – Pen y Cei, Lôn Pen Cei, Aber-soch **– Caniatawyd ag amodau** |
| C17/0444/39/LL | Gosod dwy garafán sefydlog ychwanegol i gynyddu niferoedd o 17 i 19 a chodi clawdd pridd newydd – Tŷ Hir, Mynytho **– Gwrthodwyd** |
| C17/0448/39/LL | Adeilad gwasanaethu newydd, amrywiol waith peirianyddol, ynghyd â chynyddu lleiniau teithiol o 18 i 24 – Fron Hyfryd, Sarn Bach **– Caniatawyd ag amodau** |

**YMHOLIADAU CYN CYFLWYNO CAIS A CHEISIADAU A DYNNWYD YN ÔL –** Dim

13. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

**Taliadau**
Cadarnhawyd talu cyflog misoedd Gorffennaf (Rh/S 002078) ac Awst (Rh/S 002080) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Dŵr Cymru – £288.45 (Rh/S 002073 – Toiledau Lôn Traeth)
b) Un Llais Cymru – £120.00 (Rh/S 002074 – Hyfforddiant)
c) T.H. Jones, Gofaint – £473.00 (Rh/S 002075 – Ffens Newydd ac Adnewyddu)
ch) Wicksteed Leisure Ltd. – £50.17 (Rh/S 002076 – Darnau Offer y Caeau Chwarae)
d) Casglwr Trethi – £7.16 (Rh/S 002077 – Talu Wrth Ennill)

dd) Cyngor Gwynedd – £731.15 (Rh/S 002079 – Gwagio Biniau Baw Cŵn)

**Derbyniadau**

a) Toiledau – £336.30 (Tâl Mynediad – £77.50, £31.40, £35.30, £63.55, £93.50 a £35.05)
b) Ifan Hughes, Ymgymerwr – £160.00 (Ailagor Bedd)

14. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Medi 13eg, 2017 am saith o'r gloch